OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2005 Rhif 1812 (Cy.142)

# PRIFFYRDD, CYMRU

## Rheoliadau Gwaith Stryd (Cofnodion) (Cymru) 2005

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | - - | *5 Gorffennaf 2005* |
| *Yn dod i rym* | - - | *1 Rhagfyr 2005* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 79 a 104(1) o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991(**1**) ac sydd bellach yn arferadwy gan y Cynulliad Cenedlaethol o ran Cymru(**2**), drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

(**1**) 1991 p.22.
(**2**) Trosglwyddwyd pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau y maent yn arferadwy mewn perthynas â Chymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru drwy Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/ 672).